**Eisteddfod Gadeiriol y Tymbl 2025**

Er y tywydd gwlyb a stormus, braf oedd gweld Neuadd Y Tymbl unwaith eto yn llawn ar gyfer Eisteddfod Gadeiriol Y Tymbl a diolch i bawb a wnaeth yr ymdrech i deithio trwy'r dilyw, y cystadleuwyr, y beirniaid, aelodau o'r pwyllgor, aelodau o'r corau a'r gynulleidfa. Unwaith eto eleni, dechreuodd yr eisteddfod trwy wobrwyo'r plant o'r ysgolion lleol oedd wedi ennill yn y cystadlaethau celf ac yn ysgrifennu barddoniaeth. Am y tro cyntaf eleni, cyflwynwyd cwpan i'r darn gorau o waith yn yr adran gelf ac enillydd cyntaf y wobr hon oedd Daniel Rees o Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas. Symudwyd ymlaen wedyn i wrando ar y plant o'r ysgolion lleol yn canu ac yn llefaru. Braf oedd mwynhau y doniau lleol a rhaid diolch i staff yr ysgolion am eu gwaith yn paratoi disgyblion eu hysgolion i berfformio ar y llwyfan. Unwaith eto eleni, roedd hi'n hyfryd gallu gwobrwyo y rhai a ddaeth yn gyntaf yn yr adran leol gyda chwpanu a oedd yn rhodd i'r eisteddfod gan Jane Hyde (Davies cyn priodi), gynt o Bontyberem. Enillydd y cwpan am y cystadleuydd mwyaf addawol yn yr adran leol oedd Alys Williams o Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas. Eleni ein beirniad canu oedd Meinir Jones Parry o Gaerfyrddin a'r beirniad llefaru a llenyddiaeth oedd Ivoreen Williams o Saron. Diolch i'r ddwy am eu gwaith gofalus yn pwyso a mesur y cystadlu a'u traddodi hwylus gyda chyngor adeiladol gydol y diwrnod. Llongyfarchiadau mawr i Peredur Hedd Llywelyn o Landysul am ennill y wobr i'r cystadleuydd ifanc mwyaf addawol yn yr adran gerdd. Bu'n ein diddanu ni yn llefaru ac yn canu mewn amryw o arddulliau o'r alaw werin i'r sioeau cerdd. Llongyfarchiadau mawr iddo a diolch hefyd i'r ieuenctid eraill a ddaeth i gystadlu. Roedd y cystadlu yn yr adran cynradd ac yn yr adran uwchradd o safon uchel iawn ac yn fwy nag un cystadleuaeth gwelodd y beirniaid hi'n anodd iawn i ddod i benderfyniadau.

Daeth deg darn i mewn i'r gystadleuaeth y gadair ar y thema, 'Diosg'. Yn dod i'r brig gan ennill y gadair a gwobr o hanner can punt oedd, Beti Wyn James o Abergwili, Caerfyrddin, un sydd yn gyfarwydd iawn i nifer. Yn weinidog ar ofalaethau Caerfyrddin a Bancyfelin, hi hefyd yw Arwyddfardd yr Eisteddfod Genedlaethol. Diolch i ddisgyblion Ysgolion Gynradd Gymraeg Llechyfedach a'r Tymbl am ganu yn seremoni'r cadeirio.

Llywydd yr eisteddfod eleni oedd Gareth Rees, cyn-bennaeth Ysgol Y Tymbl ac aelod pybyr o Fand Pres Crwbin. Diddanwyd pawb gan araith hwylus Gareth yn ôl-rhain straeon am y corau bu'n ganu gyda a thaith Band Pres Crwbin i fyny'r adrannau cystadlu. Nododd bwysigrwydd eisteddfodau lleol fel lleoedd i feithrin doniau a magu hyder ein hifanc ar gyfer perfformio a chystadlu ar lwyfannau hwy.

Does dim côr wedi cystadlu yn yr eisteddfod ers rhai blynyddoedd ond eleni nid un côr a ddaeth i gystadlu ond tri! Ac am wledd o ganu, codwyd y to gan y tri chôr gyda'r tri chôr yn rhoi perfformiadau gwych. Ond rhaid cael enillydd, ac i'r brig ar y noson daeth Côr Bois Y Strade. Llongyfarchiadau mawr iddynt hwy a hefyd i'r ddau gôr arall ar eu perfformiadau, Côr Cwm Rhondda a Chôr y Sgarlets.

Er bwrlwm y diwrnod, gwelwyd eisiau un a fu'n aelod triw o bwyllgor yr eisteddfod yn fawr iawn. Yn ystod mis Chwefror eleni cawsom ein syfrdanu fel cymuned wrth glywed am farwolaeth sydyn ac annisgwyl Gwynfor Jones. Roedd Gwynfor wedi bod yn aelod gweithgar o bwyllgor 'Steddfod y Tymbl ers blynyddoedd maith. Gwynfor oedd yn gyfrifol am gadw trefn ar y llwyfan ar ddiwrnod 'Steddfod, yn rhannu medalau gyda'r plant lleol peth cyntaf yn y bore, hyd at ddiwedd yr Eisteddfod pryd y cenir yr anthem Genedlaethol. Roedd yn anodd cael Gwynfor i adael y llwyfan i gael disied o de hyd yn oed! Yn seremoni'r cadeirio yn flynyddol, fe oedd Ceidwad y Cledd a byddai'n mynd i gyrchu'r bardd buddugol gyda balchder mawr. Anrhydeddwyd Gwynfor am ei waith diflino dros nifer o flynyddoedd er budd Eisteddfod Y Tymbl gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru, yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni, 2016. Mae colled enfawr ar ôl Gwynfor yn y gymuned gyfan, roedd yn gymwynaswr hael ac yn rhoi o'i amser i bawb.

CANLYNIADAU EISTEDDFOD Y TYMBL 2025

CYSTADLAETHAU LLEOL

*Unawd canu Bl. 3 a 4*
1. Kian Purchase, Ysgol Gynradd Gymraeg Y Tymbl
2. Martha Edwards, Ysgol Llanddarog
3. Elan Clement, Ysgol Gynradd Gymraeg Y Tymbl a Cora Davies, Ysgol Gynradd Gymraeg Y Tymbl

*Llefaru Bl. 3 a 4*
1. Elen Griffiths, Ysgol Gynradd Llannon
2. Cora Davies, Ysgol Gynradd Gymraeg Y Tymbl
3. Awel Clement, Ysgol Gynradd Gymraeg Y Tymbl

*Unawd canu bl. 2 a than hynny*
1. Alys Williams, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas
2. Edison Daniels, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas
3. Eden Kestin, Ysgol Gynradd Gymraeg Y Tymbl

*Llefaru Bl. 2 a than hynny*
1. Alys Williams, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas
2. Ysella Talbot, Ysgol Gynradd Gymraeg Y Tymbl
3. Gwen Rice, Ysgol Gynradd Gymraeg Y Tymbl

*Unwad canu Bl. 5 a 6*
1. Bonnie Lewis, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas
2. Sara Jenkins-Green, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas a **Hannah** Lewis, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas
3. Jack Masters, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas a Lilly Oliver, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas

*Llefaru Bl. 5 a 6*
1. Lilly Oliver, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas
2. Archie Young, Ysgol Gynradd Llannon
3. Grace Rees a Harley Kestin, Ysgol Gynradd Gymraeg Y Tymbl

*Cystadleuydd Mwyaf Addawol Yn Yr Adran Leol* - Alys Williams, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas

CYSTADLAETHAU AGORED

*Unawd dan 6 oed*
1. Ffion Llewellyn, Llanwnnen
2. Mari Jones, Llanddewi
3. Gruffydd Gwilym, Talyllychau

*Llefaru dan 6 oed*
1. Gruffydd Gwilym, Talyllychau
2. Mari Jones, Llanddewi
3. Ffion Llewellyn, Llanwnnen

*Unawd 6-8 oed*
1. Anni Wyn, Talyllychau
2. Gwern Bowen, Boncath
3. Ilan-Rhun Phillips, Caerfyrddin

*Llefaru 6-8 oed*
1. Anni Wyn, Talyllychau
2. Gwern Bowen, Boncath
3. Ilan-Rhun Phillips, Caerfyrddin

*Unawd 8-10 oed*
1. Bethan Llewellyn, Llanwnnen
2. Tryfan Phillips, Talsarn
3. Alys Jones, Pen-y-bont ar Ogwr

*Llefaru 8-10 oed*
1. Bethan Llewellyn, Llanwnnen a Tryfan Phillips, Talsarn

*Unawd 10-12 oed*
1. Gruff Davies, Llandyfriog
2. Elan Douch, Cwmann
3. Erin Landry, Cross Hands

*Llefaru 10-12 oed*
1. Gruff Davies, Llandyfriog
2. Sara Jenkins-Green, Gorslas

*Unawd ar unrhyw offeryn cerdd dan 12 oed*
1. Gruff Davies, Llandyfriog
2. Jack Masters, Gorslas
3. Tryfan Phillips, Talsarn a Sara Jenkins-Green, Gorslas

*Cân werin dan 12 oed*
1. Gruff Davies, Llandyfriog
2. Bethan Llewellyn, Llanwnnen a Gwern Bowen, Boncath

*Llefaru darn o’r ysgrythur dan 12 oed*
1. Gruff Davies, Llandyfriog

*Canu emyn dan 12 oed*
1. Elan Douch, Cwmann
2. Gruff Davies, Llandyfriog
3. Bethan Llewellyn, Llanwnnen

*Unawd 12 i 16 oed*
1. Awel Grug Lewis, Rhydaman
2. Iwan Marc Thomas, Pontarddulais
3. Carys Haf Howells, Rhydaman

*Llefaru 12 i 16 oed*
1. Gwion Bowen, Boncath
2. Awel Grug Lewis, Rhydaman
3. Iwan Marc Thomas, Pontarddulais

*Cân werin 12 i 16 oed*
1. Iwan Marc Thomas, Pontarddulais
2. Awel Grug Lewis, Rhydaman

*Unawd ar unrhyw offeryn cerdd 18 oed a than hynny*
1. Awel Grug Lewis, Rhydaman
2. Iwan Marc Thomas, Pontarddulais
3. Jack Masters, Gorslas a Marged Alys, Y Tymbl

*Unawd canu 16-21 oed*
1. Peredur Llywelyn, Llandysul
2. Elan Rees, Brynaman

*Llefaru 16-21 oed*
1. Peredur Llywelyn, Llandysul

*Cystadleuydd ifanc mwyaf addawol yn yr adran gerdd* - Peredur Llywelyn, Llandysul

*'Sgen Ti Dalent*
1. Gwion Bowen, Boncath
2. Carys Thomas, Caerfyrddin
3. Peredur Llywelyn, Llandysul

*Cân Werin - agored*
1. Peredur Llywelyn, Llandysul
2. Awel Haf Lewis, Rhydaman

*Unawd allan o Sioed Gerdd*
1. Peredur Llywelyn, Llandysul
2. Awel Haf Lewis, Rhydaman

*Llefaru darn o'r ysgrythur*
1. Awel Haf Lewis, Rhydaman
2. Gwion Bowen, Boncath
3. Huw Roberts, Caerdydd a Sulwen Davies, Drefach

*Cystadleuaeth Gorawl Eisteddfodau Cymru*
1. Côr Bois Y Strade
2. Côr Cwm Rhondda
3. Côr y Sgarlets

*Canu Emyn: dros 60 oed*
1. Huw Roberts, Caerdydd
2. Sulwen Davies, Drefach
3. Liz Evans, Porth Tywyn

*Adrodd digri*
1. Gwion Bowen, Boncath
2. Sulwen Davies, Drefach

*Cenwch im yr Hen Ganiadau*
1. Gerwyn Rees, Porthyrhyd

*Her Llefaru (dros 21 oed)*
1. Sulwen Davies, Drefach
2. Moira Evans, Rhydargaeau

*Her Unawd*
1. Gerwyn Rees, Porthyrhyd

**CYSTADLAETHAU LLENYDDIAETH**

Y Gadair – Diosg

Beti Wyn James, Abergwili, Caerfyrddin

Telyneg - Saib/Seibiant

1. Myfanwy Roberts, Llanrwst
2. John Meurig Edwards, Aberhonddu
3. Megan Richards, Aberaeron

Englyn Ysgafn - Swnian

1. Tesni Elen Peers, Wrecsam
2. Alan Iwi, Didcot
3. Tomos Rees

Ysgrif neu Stori - Ar Ben Fy Nigon

1. Gerald Coles, Llanilltud Fawr
2. John Meurig Edwards, Aberhonddu
3. Gaenor Mai Jones, Pentre’r Eglwys

Brawddeg - Sgrechian

1. Myfanwy Roberts, Llanrwst
2. Carys Briddon, Tre’r Ddôl
3. Myfanwy Roberts, Llanrwst

Limrig - Wrth Edrych Trwy’r Ffenest Un Bore

1. John Meurig Edwards, Aberhonddu
2. Myfanwy Roberts, Llanrwst
3. Margaret

Emyn

1. Megan Richards, Aberaeron
2. John Meurig Edwards, Aberhonddu
3. Myfanwy Roberts, Llanrwst

**Cystadlaethau Gwaith Y Plant**

**Arlunio**

Dosbarth Meithrin a Derbyn

1af - Loti-Beau Bennett, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas
2il - Ysella Talbot, Ysgol Gynradd Gymraeg Y Tymbl
3ydd - Delmi, Ysgol Gynradd Gymraeg Cefneithin a Blake Chand, Ysgol Gynradd Llannon

Blynyddoedd 1 a 2

1af - Daniel Rees, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas
2il - Adeline Hawker, Ysgol Gynradd Llannon
3ydd - Phoebe Wilson, Ysgol Gynradd Gymraeg Y Tymbl a Rhian-Marie Price, Ysgol Gymradd Gymraeg Gorslas

Blynyddoedd 3 a 4

1af - Elsi Stephens, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas
2il - Adam, Ysgol Gynradd Gymraeg Cefneithin
3ydd - Efa Williams, Ysgol Gynradd Gymraeg Y Tymbl

Blynyddoedd 5 a 6

1af - Cari Ellis, Ysgol Gynradd Llannon
2il - Lexi Sedgwick-Waters, Ysgol Gynradd Gymraeg Cefneithin
3ydd - Caisey Jones, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas

Tarian ar gyfer y darn gorau yn yr adran arlunio - Daniel Rees, Ysgol Gorslas

**Cystadlaethau Llawysgrifen**

Blynyddoedd 1 a 2

1af - Osian Hughes, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas
2il - Daniel Rees, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas
3ydd - Loti, Ysgol Gynradd Gymraeg Cefneithin

Blynyddoedd 3 a 4

1af - Eliza Pellecchia, Ysgol Gymradd Gymraeg Y Tymbl
2il - Efa Williams, Ysgol Gynradd Gymraeg Y Tymbl
3ydd - Lacey Rees, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas

Blynyddoedd 5 a 6

1af - Rosie Nesbitt, Ysgol Gynradd Gymraeg Cefneithin
2il - Maddie Rice, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas
3ydd - Bonnie Lewis, Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas

**Cystadleuaeth Ffotograffiaeth**

1af - Elen Griffiths, Ysgol Gynradd Llannon

**Cystadleuaeth Addurn 3D**

1af - James Cummins, Ysgol Gynradd Llannon
2il - Phoenix
3ydd - Kelby Addison-Evans, Ysgol Gynradd Llannon

**Barddoniaeth**

Blynyddoedd 3 a 4

1af - Tec Bryant, Ysgol Gynradd Llannon
2il - Efa Thomas, Ysgol Gynradd Llannon
3ydd - Elen Griffiths, Ysgol Gynradd Llannon
3ydd - Mia Emoka, Ysgol Gynradd Llannon

<u>Blynyddoedd 5 a 6</u>

1af - Finley Davies , Ysgol Gynradd Llannon
2il - Grace Stephens, Ysgol Gynradd Gymraeg Llechyfedach
3ydd - Iwan Williams, Ysgol Gynradd Gymraeg Llechyfedach